**Cymraeg Mewn Arfer Proffesiynol 1**
**ECAD4020-C**
**2025-26**

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | University of Wales Trinity Saint David

Yr Athrofa Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

# Darlith 14: Cwestiynu
**29.1.2026**

n.evans@pcydds.ac.uk

Peniarth .cymru | Rhagor iaith | Canolfan Gwasanaethau Cymraeg | Welsh Language Services Centre

1

# Allwedd:


Drilio


Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Tasg wrando


Gwaith pâr


Grŵp o dri


Gwaith grŵp


Amser canu


Gwaith ar y byrddau gwyn


Tasg ysgrifennu


Tasg ddarllen


Help llaw


Tystiolaeth i'r Portffolio

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education | Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

2

**Trafodwch:**
Ydych chi'n cofio .....
sut mae datblygu sgiliau gwrando?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

3

## Datblygu sgiliau gwrando























Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

4

# Pam bod datblygu sgiliau gwrando'n bwysig?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

5

# Mae hi'n amser cofrestru…


























Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

6

# Tywydd (#Adams Family)



- Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Mae hi'n bwrw glaw!
- Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Mae hi'n gymylog!
- Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Mae hi'n heulog!
- Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Mae hi'n bwrw glaw!
- Sut roedd y tywydd ddoe?
  Sut roedd y tywydd ddoe?
  Sut roedd y tywydd ddoe?
  Roedd hi'n gymylog!
- Sut bydd y tywydd 'fory?
  Sut bydd y tywydd 'fory?
  Sut bydd y tywydd 'fory?
  Bydd hi'n heulog!

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales www.athrofa.cymru

7

# Y Tywydd (#She'll be Coming Round the Mountain)

Mae hi'n heulog heddiw, hip-hwre!
Mae hi'n heulog heddiw, hip-hwre!
Mae hi'n heulog heddiw,
Heulog heddiw
Heulog Heddiw, hip-hwre!

Mae hi'n bwrw glaw heddiw, ych-a-fi!
Mae hi'n bwrw glaw heddiw, ych-a-fi!
Mae hi'n bwrw glaw heddiw,
Bwrw glaw heddiw
Bwrw glaw heddiw, ych-a-fi!

Bydd hi'n wyntog yfory, ych-a-fi!....



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales www.athrofa.cymru

8

Mae rhieni yn bwysig iawn yn natblygiad iaith eu plant ac i'r broses o gaffael iaith yn y cyfnod cynnar. Rhieni – ac oedolion eraill allweddol, wrth gwrs – **sy'n canu i'w plant, yn chwarae gemau bys a bawd, sy'n goglais eu plant, sy'n rhoi cwtsh iddyn nhw ac yn darllen iddyn nhw.** Bydd rhieni, oedolion eraill, a hyd yn oed plant hŷn, yn siarad gyda babis mewn ffordd arbennig. Cyfeirir at y math hon o ieithwedd neu gywair ieithyddol fel mameg (motherese), gofaleg (caretaker speech) neu, yn syml, iaith oedolion at blant (adult speech to children). Clywir yn math hyn o siarad elfennau penodol megis: ailadrodd, aralleirio, goslefu pendant, enwi cyson, defnydd o ystumiau corfforol ac ystumiau wyneb. Gwelir hyn yn cael ei adlewyrchu'n aml yn niwylliant **rhigymau a hwiangerddi plant**.

(Siencyn a Richards, 2010, t.157)

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

9




# Hwiangerddi

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

10

# Munud i feddwl …



Faint o batrymau iaith gwahanol a ddysgwyd (drwy ddrilio) yn y sesiwn gofrestru?



11

# Sgiliau llafar dyddiol
(Cyfnod Dysgu Sylfaen)

- Amser cofrestru: drilio, drilio, drilio
- Pwysigrwydd holi, holi, ac holi cwestiynau
- Disgwyliadau uchel o ran atebion
- Dangos arfer da – model llafar DA a CHYWIR
- Dysgu caneuon a rhigymau
- Sbardunau siarad





12

# Sbardunau siarad …





13

# Gorffennwch y frawddeg …





Gorffennwch y frawddeg:

Neithiw

Gorffennwch y frawddeg:

Heddiw ....

Gorffennwch y frawddeg:

Ddoe

Gorffennwch y frawddeg:

Mae ....

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

14

## Pa un sydd orau? Pam?





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

15

## Pa un sy'n eithriad? Pam?











Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

16

**Dysgu uniongyrchiol**

Direct teaching of essential talk skills and understanding is straightforward and should be undertaken in school classrooms.

(Lyn Dawes a Claire Sama, TALK BOX: 1)



17



## Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

**Mae llawer o ymarferwyr yn modelu iaith yn dda i gefnogi datblygu lleferydd a chyfathrebu dysgwyr yn llwyddiannus.**

Mae lleoliadau ac ysgolion yn aml yn creu amgylcheddau dysgu sy'n gyfoethog o ran iaith a llythrennedd. Mae medrau iaith a llythrennedd dysgwyr yn cael eu datblygu orau yn aml yn yr ysgolion a'r lleoliadau hynny sy'n mabwysiadu ymagwedd thematig integredig neu ymagwedd a ystyriwyd yn ofalus. Wrth baratoi ar gyfer *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b), mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau go iawn a dychmygus i ddatblygu neu ehangu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus iawn, mae athrawon yn cynllunio'n benodol ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eirfa, fel agwedd nodedig ar ddysgu iaith.

tudalen 12




Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

18

## Gwrando a siarad

**Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen.**

Lle bo'n briodol, mae ymarferwyr yn cynorthwyo dealltwriaeth gynnar dysgwyr o iaith trwy fodelu a dangos ystumiau neu symudiadau sy'n cyfleu ystyr geiriau.

- Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd allgyrsiol buddiol, gan gynnwys yn y gymuned leol, i ddysgwyr ddatblygu'u medrau iaith.
- Mae'r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol, fel cyfranogi yn yr Urdd, i addysgu dysgwyr sut i wrando a siarad yn benodol.
- Mae darpariaeth fel arfer yn llai effeithiol pan fydd gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy'n cefnogi dysgu ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau i'w datblygu ynddynt eu hunain.




tudalen 14



19

# Sut mae datblygu sgiliau llafar?



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales www.athrofa.cymru

20

# Cwestiynu

Mae dau brif fath o gwestiwn …

**cwestiwn caeëdig**

dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy’n bosib

**cwestiwn agored**

amrywiaeth o atebion posib

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales | Rhagoriaith Canolfan Gwasanaethau Cymraeg | www.athrofa.cymru

21

**Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.**

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| | llafar ac ysgrifennu.<br><br>Rwy’n gallu egluro ble a pham rwyf wedi gwneud unrhyw newidiadau neu gywiriadau. | yn fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig. |
| Rwy’n dechrau cymryd fy nhro mewn sgyrsiau, gan ddilyn y pwnc dan sylw.<br><br>Rwy’n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well. | Rwy’n gallu ymgymryd ag ystod o rolau a rheoli fy nghyfraniad yn briodol.<br><br>Rwy’n gallu newid y modd rwy’n cyfathrebu, yn ôl lle’r wyf i a chyda phwy.<br><br>Rwy’n gallu defnyddio iaith lafar at wahanol ddibenion.<br><br>Rwy’n gallu gofyn ac ateb cwestiynau a chyfnewid syniadau a gwybodaeth. | Rwy’n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan ymofyn eglurhad, strwythuro dadleuon, crynhoi ac esbonio’r hyn rwyf wedi’i glywed, ei ddarllen neu’i weld. |
| Rwy’n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. | Rwy’n gallu ysgrifennu’n ddarllenadwy. | Rwy’n gallu ysgrifennu’n ddarllenadwy a rhugl. |

System Preferences

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales | www.athrofa.cymru

22

## Cwestiynau caeëdig …

Mae sawl ffordd o ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol yn Gymraeg, felly mae'n bwysig eich bod chi'n modelu'r patrymau cywir ar gyfer y disgyblion:

**Oes** / **Nac oes**

**Ydy** / **Nac ydy**

**Do** / **Naddo**

**Oedd** / **Nac oedd**

**Ie** / **Nage**

**Cei** / **Na chei**

**Ydw** / **Nac ydw**



23

## Ffurfio cwestiynau caeëdig …

**Oes > ffurfiau amhendant**

**Cwestiynau enghreifftiol:**
**Oes** llyfr ar y bwrdd?
**Oes** pensiliau yn y bocs?

**Atebion: Oes**/ Nac **oes**.

**Ydy (ydy'r) > ffurfiau pendant**

**Cwestiynau enghreifftiol:**
**Ydy** John yn absennol?
**Ydy'r** llyfr ar y bwrdd?

**Atebion: Ydy**/ Nac **ydy**.



24

# Pa gwestiynau?

Defnyddio gwrthrych i ennyn trafodaeth...











# Pa gwestiynau?



# Y presennol



Pan fyddwch chi'n gofyn cwestiwn i ddisgybl yn yr amser presennol, defnyddiwch y patrwm:
**Wyt ti…?**

Atebion posib: **Ydw/ Nac ydw.**

Pan fyddwch chi'n gofyn cwestiwn i rywun hŷn,  i ddangos parch (e.e. at y prifathro) neu i fwy nag un person, defnyddiwch y patrwm:
**Ydych chi …?**

Atebion posib: **Ydw/ Nac ydw/ Ydyn/ Nac ydyn.**

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

27

# Y presennol



| Cwestiwn | Ateb cadarnhaol | Ateb negyddol |
|---|---|---|
| Ydw i…? | Wyt, rwyt ti<br>Ydych, rydych chi | Nac wyt, dwyt ti ddim<br>Nac ydych, dydych chi ddim |
| Wyt ti'n…? | Ydw, rydw i'n | Nac ydw, dydw i ddim yn |
| Ydy e'n/hi'n…? | Ydy, mae e'n/hi'n | Nac ydy, dydy e/hi ddim yn |
| Ydy Sian yn… ? | Ydy, mae Sian yn | Nac ydy, dydy Sian ddim yn |
| Ydy'r plant yn …? | Ydyn, mae'r plant yn | Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn |
| Ydyn ni'n …? | Ydyn, rydyn ni'n<br>Ydych, rydych chi'n | Nac ydyn, dydyn ni ddim yn<br>Nac ydych, dydych chi ddim yn |
| Ydych chi'n…? | Ydw, rydw i'n<br>Ydyn, rydyn ni'n | Nac ydw, dydw i ddim yn<br>Nac ydyn, dydyn ni ddim yn |
| Ydyn nhw'n…? | Ydyn, maen nhw'n | Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

28

# Y gorffennol



Os ydy cwestiwn yn defnyddio ffurf gorffennol y ferf, yna **'do'** a **'naddo'** fydd yr atebion.

**Er enghraifft:**

Wnest ti dy waith cartref neithiwr?  Do.  / Naddo.

Orffennodd Siân ei chinio?  Do. / Naddo.

Ddarllenodd e nofel neithiwr?  Do.  / Naddo.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

29

# Y gorffennol cryno



| Cwestiwn | Ateb cadarnhaol | Ateb negyddol |
|---|---|---|
| Brynais i? | **Do**, prynais i | **Naddo**, phrynais i ddim |
| Deimlaist ti? | **Do**, teimlais i | **Naddo**, theimlais i ddim |
| Gafodd e / hi? | **Do**, cafodd e/hi | **Naddo**, chafodd e/hi ddim |
| Fwytodd hi? | **Do**, bwytodd hi | **Naddo**, fwytodd hi ddim |
| Ddarllenodd Siôn? | **Do**, darllenodd Siôn | **Naddo**, ddarllenodd Siôn ddim |
| Wnaeth y plant? | **Do**, gwnaeth y plant | **Naddo**, wnaeth y plant ddim |
| Liwioch chi? | **Do**, lliwioch chi | **Naddo**, liwioch chi ddim |
| Fentron ni? | **Do**, mentron ni | **Naddo**, fentron ni ddim |
| Redon nhw? | **Do**, rhedon nhw | **Naddo**, redon ni ddim |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

30

# Y dyfodol

| Cwestiwn | Ateb cadarnhaol | Ateb negyddol |
|---|---|---|
| Fydda i …? | **Byddi**, byddi di<br>**Byddwch**, byddwch chi | **Na fyddi**, fyddi di ddim<br>**Na fyddwch**, fyddwch chi ddim |
| Fyddi di …? | **Byddaf**, bydda i'n | **Na fyddaf**, fydda i ddim |
| Fydd e / o/ hi…? | **Bydd**, bydd e / o/ hi | **Na fydd**, fydd e / o/ hi ddim |
| Fydd Sian …? | **Bydd**, bydd Siôn | **Na fydd**, fydd Siôn ddim |
| Fydd y plant …? | **Bydd**, bydd y plant | **Na fydd**, fydd y plant ddim |
| Fyddwn ni …? | **Byddwn**, byddwn ni<br>**Byddwch**, byddwch chi | **Na fyddwn**, fyddwn ni ddim<br>**Na fyddwch**, fyddwch chi ddim |
| Fyddwch chi …? | **Bydda**, bydda i | **Na fydda**, fydda i ddim |
| | **Byddwn**, byddwn ni | **Na fyddwn**, fyddwn ni ddim |
| Fyddan nhw …? | **Byddan**, byddan nhw | **Na fyddan**, fyddan nhw ddim |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales www.athrofa.cymru

31

# Ga i...?

Cofiwch: **Treiglad meddal** ar ôl 'i'

Ga i fenthyg pensiliau lliw?

Cofiwch: **Treiglad llaes** ar ôl 'na'

**Cei**

**Na chei**

| | |
|---|---|
| **os gweli di'n dda?**<br>(un person) | **os gwelwch yn dda?**<br>(grŵp o bobl neu i ddangos parch) |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales www.athrofa.cymru

32

Cofiwch:
**Treiglad meddal** ar ôl 'i'

# Gawn ni...?



Cofiwch:
**Treiglad llaes** ar ôl 'na'

Gawn ni **f**ynd ar drip?

**Cewch**



**Na ch̲ewch**



| | |
|---|---|
| **os gweli di'n dda?**<br>(un person) | **os gwelwch yn dda?**<br>(grŵp o bobl neu i ddangos parch) |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

33

Cofiwch:
**Treiglad meddal** ar ôl 'i'

# Ga i...?

Mewn parau, ymarferwch ofyn ac ateb y cwestiynau canlynol:



| |
|---|
| paned o de |
| taflen arall |
| clywed dy ateb |
| benthyg pren mesur |
| gweld dy waith |
| llyfr newydd |
| mynd i'r tŷ bach |
| rhedeg yn y ras yma |

Cofiwch:
**Treiglad llaes** ar ôl 'na'

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

34

# Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Nodwch eich atebion ar eich byrddau gwyn bach:



| Cwestiynau: | |
|---|---|
| 1. **Oes** car gennyt ti? | **Oes / Nac oes** |
| 2. **Ydy** e'n mynd heno? | **Ydy / Nac ydy** |
| 3. **Oedd** Rhodri yn disgwyl ennill? | **Oedd / Nac oedd** |
| 4. **Fyddi** di'n gorffen am dri? | **Byddaf / Na fyddaf** |
| 5. **Est** ti i'r llyfrgell ddoe? | **Do / Naddo** |
| 6. **Ydych** chi wedi gorffen? | **Ydyn / Nac ydyn** |

**Mae cliw yn y cwestiwn fel arfer!**

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

35

## Munud i feddwl …



Faint o amser, ar gyfartaledd, mae disgybl yn ei dderbyn gan athro wrth feddwl am ateb i gwestiwn?

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

36

Amser aros athrawon Prydain yw **0.9 eiliad ar gyfartaledd**. Os nad ydym wedi cael ateb erbyn hynny, rydym yn tueddu i addasu'r cwestiwn neu ei ateb ein hunain! Os ydym am i ddysgwyr feddwl am gwestiwn, rhaid i ni roi amser i hyn ddigwydd, a datblygu awyrgylch lle y disgwylir i bawb feddwl. Os yw'r amser aros yn cynyddu i ddim ond tri eiliad, ceir cynnydd enfawr yn: nifer y dysgwyr sy'n ymateb; dyfnder yr atebion; ac yn ystod yr iaith a ddefnyddir yn eu hatebion. Efallai ei bod yn fwy defnyddiol i alw hyn yn *amser meddwl* yn hytrach nag *amser aros*, oherwydd mae'n rhaid i ni hyrwyddo meddwl gweithredol yn hytrach nag aros goddefol.

Llywodraeth Cymru (2010) Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth.
Ar gael ar:https://hwb.gov.wales/api/storage/283b9318-dcf7-402d-b39a-67dee70efe18/sut-i-ddatblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf



37

## Munud i feddwl …



Faint o gwestiynau caeëdig sy’n cael eu gofyn mewn gwers?

Ydy hyn yn ffordd dda i gynnwys pawb?

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

38

## Ping pong neu bêl-rwyd?

Meddyliwch am ddatblygu sgiliau cwestiynu fel dwy gêm. Ar y dechrau rydych chi am ddysgu'r patrymau cywir iddyn nhw drwy ddarparu cyfleoedd i atgyfnerthu patrymau holi ac ateb (ping pong). Yn y pendraw, rydych chi am annog disgyblion i ateb ei gilydd yn gywir a chwestiynu ei gilydd hefyd (pêl-rwyd).






Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales
Rhagoriaith Canolfan Gwasanaethau Cymraeg
www.athrofa.cymru

39

## Munud i feddwl …



Faint o amser sy'n cael ei dreulio yn meddwl am gwestiynau da / pwrpasol / safonol / heriol i'w gofyn mewn gwers?

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

40

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pwy ...?** | **+ berf** | **+ treiglad meddal** | Pwy fwytodd ffrwyth i frecwast? | Aled. | Aled fwytodd ffrwyth i frecwast. |
| **Ble ...?** | **+ berf** | **DIM treiglad meddal** | Ble mae Helen yn byw? | Bangor. | Mae Helen yn byw ym Mangor. |
| **Pam ...?** | **+ berf** | **DIM treiglad meddal** | Pam wyt ti'n athro? | Achos dw i'n mwynhau. | Achos dw i'n mwynhau. |
| **Beth ...?** | **+ berf** | **+ treiglad meddal** | Beth ddarllenaist ti neithiwr? | Blog. | Darllenais i flog neithiwr. |
| **Sut ...?** | **+ berf** | **DIM treiglad** | Sut est ti i'r dref? | Ar y bws. | Es i i'r dref ar y bws. |
| **Sut ...?** | **+ enw** | **+ treiglad meddal** | Sut lyfr ydy e? | Nofel dditectif. | Nofel dditectif ydy e. |
| **Faint o ...?** | **+ enw lluosog** | **+ treiglad meddal** | Faint o ddisgyblion sydd yn y dosbarth? | Dau ddeg pump. | Mae dau ddeg pump o ddisgyblion yn y dosbarth. |
| **Pa ...?** | **+ enw** | **+ treiglad meddal** | Pa liw ydy'r trên? | Glas. | Glas ydy'r trên. |
| **Pryd ...?** | **+ berf** | **DIM treiglad** | Pryd byddi di'n mynd adref? | 4 o'r gloch | Bydda i'n mynd adref am 4 o'r gloch. |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

41

# Chwarae rôl …




Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

42

## Pwysigrwydd bod tu allan …




Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

43

**Awgrymiadau:**

- Gofynnwch gwestiynau “pam” a “sut”
- Defnyddiwch ddatganiadau a chwestiynau agored ac adfyfyriol; gofynnwch am stori, am farn, am sylwebaeth;
- Cysylltwch â bywydau plant, eu diddordebau, gweithgaredau blaenorol
- Sefydlwch bartneriaeth sgwrsiol
- Holwch gwestiynau lefel uchel: “sut mae hwnna’n gweithio tybed?”, “beth fyddai’n digwydd petai…?”
- Meddyliwch yn uchel ac ychwanegwch dagiau megis “ondyfe”, “chi’n gwybod, “wsti”
- Defnyddiwch weithgareddau agored gyda deunyddiau go iawn- defnyddio ffonau go iawn, bwydydd go iawn … nid afalau plastig a ffonau tegan.

- Beth am recordio eich hyn yn sgwrsio gyda phlant? Wrth wylio a gwrando arnoch chi eich hunan, fe ddowch i ddeall pwysigrwydd adfyfyrio ar eich sgiliau, beirniadau a herio eich hunan i fod yn fwy effeithiol

(Siencyn a Richards, 2010, t.164)

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

44

# Defnyddio lluniau i ddatblygu iaith
(yn y cyfnod Sylfaen)

Beth …?

Pa …?

Sawl …?

Enwch …

Ble …?




Oes …?

Ydy …?

Pam …?

Sut …?

Faint …?

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

45















**Eich tro chi**

… meddyliwch am gwestiynau caeëdig ac agored

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

46

Crynodeb Gweithredol 12

## Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

**Mae llawer o ymarferwyr yn modelu iaith yn dda i gefnogi datblygu lleferydd a chyfathrebu dysgwyr yn llwyddiannus.**

Mae lleoliadau ac ysgolion yn aml yn creu amgylcheddau dysgu sy'n gyfoethog o ran iaith a llythrennedd. Mae medrau iaith a llythrennedd dysgwyr yn cael eu datblygu orau yn aml yn yr ysgolion a'r lleoliadau hynny sy'n mabwysiadu ymagwedd thematig integredig neu ymagwedd a ystyriwyd yn ofalus. Wrth baratoi ar gyfer *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b), mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau go iawn a dychmygus i ddatblygu neu ehangu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus iawn, mae athrawon yn cynllunio'n benodol ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eirfa, fel agwedd nodedig ar ddysgu iaith.




tudalen 12

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales    www.athrofa.cymru

47

# GEIRIAU ALLWEDDOL:




Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales    www.athrofa.cymru

48

## Llyfrau a gyfeiriwyd atynt yn y ddarlith hon:




Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

49

## Y tro nesaf: 5.2.2026

- Dewch â llyfr stori addas ar gyfer disgyblion yn y dosbarth sylfaen.
- Gallwch fenthyg llyfr o'r llyfrgell.



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

50




51